**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
# CENTRAL LICENSING SUB-COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**DYDD GWENER 7fed o DACHWEDD, 2014**

**FRIDAY, 7th NOVEMBER, 2014**

Lleoliad / Location:

**SIAMBR DOLGELLAU,**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR PENARLAG COUNCIL OFFICES**

**DOLGELLAU**

**am /at 10:30 am**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**LOWRI HAF EVANS (01286) 679 878**

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd/Distributed: 29/10/14

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

# LICENSING SUB-COMMITTEE

**Aelodaeth / Membership (3)**

Y Cynghorwyr / Councillors

Eryl Jones Williams (Cadeirydd/Chairman)

Annwen Hughes

Louise Hughes

W Tudor Owen (wrth gefn / reserve)

**Aelod Lleol / Local Member**

Cynghorydd/Councillor

Gethin Glyn Williams

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

**Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.**

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

**Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.**

**3. MATERION BRYS**

**Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.**

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – GWESTY LION, STRYD FAWR, ABERMAW, LL42 1DS**

**Ystyried y cais uchod**

**(copi ynghlwm – papur glas)**

## TREFN MEWN GWRANDAWIADAU I WYRO TRWYDDED

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.

2. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

4 Gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion

5. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd

6. Gwahoddiad i bob ymgynghorai gefnogi sylwadau ysgrifenedig

7. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

8. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Atgoffir pawb o'r pedwar egwyddor o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen ei ystyried, sef:

1. **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2. **Diogelwch y Cyhoedd;**
3. **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4. **Amddiffyn plant rhag niwed:**

## PROCEDURES FOR LICENSING VARIATION HEARINGS

1. A written report will be presented by the Licensing Section (with recommendation).

2. Members of the Sub-committee may ask questions of the Council's representative.

3. At the Chairman's discretion the applicant and/or his representative may ask questions of the Council's representative.

4. The applicant and/or his representative may expand upon the application and call witnesses

5. Members of the Sub-committee may ask questions of the applicant and/or his representative

6. There will be an invitation for each consultee to support any written observations

7. Members of the Sub-committee may ask questions of the consultees.

8. At the Chairman's discretion the Council's representative and the applicant or his representative may summarise their case.

All are reminded of the four principles of the Licensing Act 2003 to be considered in all deliberations, namely:

1) **Crime and Disorder Prevention;**
2) **Public Safety;**
3) **Public Nuisance Prevention; and**
4) **Protection of Children from Harm.**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **7 TACHWEDD 2014** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – LION HOTEL, STRYD FAWR, ABERMAW LL42 1DS** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer y Lion Hotel, Stryd Fawr, Abermaw, LL42 1DS gan yr ymgeisydd Deborah Cox ar ran The Lion Hotel Barmouth Limited o The Barn, Chalton Village Road, Wantage OX12 7HQ.
Gwneir y cais mewn perthynas â chyflenwi alcohol, cerddoriaeth wedi ei recordio, cerddoriaeth fyw perfformiadau dawns a chyflenwi lluniaeth hwyr y nos. Gofynnir am yr hawl i gyflenwi alcohol tu fewn a thu allan i'r eiddo tan 01:00 y bore, saith diwrnod yr wythnos.
Gofynnir hefyd am yr hawl i gynnal adloniant tu mewn a thu allan i'r eiddo hyd 23:00.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

| GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG | TRWYDDED ARFAETHEDIG |
|---|---|
| **Cyflenwi alcohol** | Llun - Sul<br>**08:00 – 01:00** |
| **Cerddoriaeth wedi ei recordio a cherddoriaeth fyw – dan do ac awyr agored** | Llun – Sul<br>**11:00 – 23:00** |
| **Perfformiadau dawns – o dan do ac awyr agored** | Llun – Sul<br>**11:00 – 23:00** |
| **Darparu lluniaeth hwyr y nos** | Llun - Sul<br>**23:00 – 01:00** |
| **Oriau agor a chau i'r cyhoedd** | Llun - Sul<br>**08:00 – 01:30** |

## Trwydded eiddo blaenorol

Roedd trwydded yn bodoli yn flaenorol ar yr eiddo; ond fe ddylid nodi mai cwmni ac unigolion gwahanol sydd bellach yn ceisio trwydded newydd.
Mae oriau gweithgareddau trwyddedig yn cyfateb i'r oriau yn yr hen drwydded; ond fe adolygwyd rhai agweddau o'r drwydded yn 2008 pan gyflwynwyd tystiolaeth fod amodau'r drwydded yn cael ei thorri, a bod yr amcanion trwyddedu yn cael eu tanseilio mewn perthynas â niwsans cyhoeddus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

## Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

- Bwriedir gofyn am brawf oedran
- Dim plant o dan 16 ar y r eiddo heb oedolyn
- Bwriedir fod yn aelod o Pubwatch
- Bwriedir gweithredu polisi llym fydd yn golygu na fydd unrhyw oddefgarwch o unigolion sydd yn ymgymryd â chyffuriau nac ychwaith ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Hyfforddiant i staff

- Monitro cyson gan staff i sicrhau nad ydyw cwsmeriaid yn creu niwsans sŵn
- Annog cwsmeriaid i ddefnyddio cerbydau tacsi
- Cydymffurfio a rheolau iechyd a diogelwch a diogelwch tan.

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir ar dudalen 16 o'r cais.

**YMGYNGHORIAD**

| **YMATEBION** | **SYLWADAU** |
|---|---|
| Aelodau lleol | E bost – gwrthwynebiad a sylwadau |
| Cyngor Tref | E bost - sylwadau a gwrthwynebiad |
| Heddlu | E bost - sylwadau |
| Gwasanaeth Tan ac Achub | E bost - gwrthwynebiad a sylwadau |
| Cyngor Gwynedd –Iechyd yr Amgylchedd | E bost - gwrthwynebiad a sylwadau |
| Cyngor Gwynedd – Iechyd a Diogelwch | E bost - gwrthwynebiad a sylwadau |
| Preswylwyr cyfagos | 7 llythyr; 1 e bost - gwrthwynebu |

**Gwrthwynebiad - Aelodau lleol**
Mae'r aelod lleol yn gwrthwynebu ar sail y 4 amcan trwyddedu - amcanion trwyddedu o

- atal trosedd ac anrhefn
- atal niwsans cyhoeddus,
- diogelwch y cyhoedd
- diogelu plant rhag niwed

mewn perthynas â'r cais. Datganir pryder y byddai caniatáu gweithgareddau trwyddedig tu allan i'r eiddo yn creu niwsans cyhoeddus. Mae'r aelod hefyd yn bryderus fod y diffyg terfyn rhwng gardd gwrw'r eiddo a'r llwybr cyhoeddus yn tanseilio'r gweddill o'r amcanion trwyddedu.

**Sylwadau – Cyngor Tref Abermaw**
Mae'r Cyngor wedi ystyried y cais gan gymryd barn preswylwyr cyfagos i ystyriaeth - yn enwedig o safbwynt yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus.
Tra bod y Cyngor yn dymuno gweld defnydd i'r adeilad unwaith eto; datganir pryderon y byddai caniatáu gweithgareddau trwyddedig tu allan i'r eiddo tan 11:00 yr hwyr yn cael effaith negyddol ar drigolion a busnesau cyfagos.

**Sylwadau ac argymhellion yr Heddlu**

Fe dderbyniwyd sylwadau'r Heddlu'r bore ar ôl y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau. Mae sylwadau'r Heddlu wedi eu cynnwys gyda'r adroddiad oherwydd eu bod yn gofnod o'r hyn a gytunwyd gyda'r ymgeisydd.
Cyfeirir at y ffaith fod trafferthion a chwynion sŵn wedi deillio o'r eiddo o dan drwydded flaenorol hyd at 2010, a arweiniodd at adolygiad o'r drwydded yn 2008.
Yn dilyn trafodaeth gyda'r ymgeisydd yn ystod y cyfnod ymgynghorol; nid yw'r Heddlu yn gwrthwynebu'r cais gan fod yr ymgeisydd wedi cytuno i gynnal cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio a pherfformiad dawns tu mewn i'r eiddo yn unig.
Yn ogystal, mae'r ymgeisydd wedi cytuno i dderbyn amodau ychwanegol ar y drwydded mewn perthynas â -

1. TCC
2. Dim byrddau na chadeiriau tu allan i'r eiddo ar ôl 2200awr
3. Eiddo i weithredu Cynllun Prawf Oedran Her 21

**Sylwadau ac argymhellion Gwasanaeth Tan ac Achub**
Cyflwynwyd copi o adroddiad a yrrwyd i'r ymgeisydd gan y swyddog tan, yn dilyn ymweliad a'r eiddo ar y 10fed o Fedi . Nodwyd yn yr adroddiad nad oedd yr eiddo yn cyrraedd y gofynion

perthnasol ar gyfer y bwriad arfaethedig mewn perthynas â'r amcan trwyddedu o ddiogelu'r cyhoedd. Gweler manylion y materion sydd angen sylw yn adroddiad y swyddog tan, yn yr atodiad.

**Sylwadau ac argymhellion Swyddog Gorfodaeth Iechyd a Diogelwch , Cyngor Gwynedd**

Rhoddir sylwadau mewn perthynas â'r amcan trwyddedu o ddiogelwch y cyhoedd.
Yn dilyn ymweliad i'r safle ar y 10fed o Fedi; argymhellir na ddylai trwydded gael ei ganiatáu hyd nes bod yr eiddo yn dod i fyny i ofynion y rheoliadau iechyd a diogelwch perthnasol.

**Sylwadau ac argymhellion Swyddog Iechyd yr Amgylchedd, Cyngor Gwynedd**

Datganir pryderon mewn perthynas â'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus.
Nodir fod yr eiddo wedi ei leoli yn agos i iawn i breswyl fannau ar y Stryd Fawr; a bod hanes o gwynion sŵn adloniant tu mewn a thu allan i'r eiddo yn y gorffennol.
Mae'r swyddog eisoes wedi gyrru copi o'r amodau rheoli sŵn a argymhellir ar gyfer trwydded yr eiddo; yn ogystal ag argymhelliad nad oes adloniant yn cael ei gynnal tu allan i'r eiddo.

**Gwrthwynebiad - preswylwyr cyfagos**

Derbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiad gan 8 o breswylwyr neu fusnesau cyfagos drwy lythyr ac e byst. Mae'r ymatebwyr oll yn bryderus iawn am leoliad yr eiddo yng nghanol ardal breswyl a busnesau eraill ar y Stryd Fawr; yn enwedig mewn perthynas â'r hanes o broblemau sy'n gysylltiedig â'r eiddo yn y gorffennol.
Noder fod un o'r ymatebwyr wedi cynnwys amryw o ddogfennau a gohebiaeth fu ynghylch a phroblemau ymddygiad cwsmeriaid ar yr eiddo fel tystiolaeth. Fe fu i drigolion gwyno ar sawl achlysur oherwydd sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac fe ddefnyddiwyd y dystiolaeth i adolygu'r drwydded yn 2008. Hyd yn oed ar ôl adolygiad o'r drwydded, adroddir fod tystiolaeth o dorri amodau adolygedig y drwydded.
Mae'r ymatebwyr oll yn bryderus fod potensial i'r pedwar amcan trwyddedu gael eu tanseilio os fydd y drwydded yn cael ei chaniatáu yn unol â'r hyn a ofynnir amdano, yn enwedig parthed gweithgareddau trwyddedig tu allan i'r eiddo. Yn benodol, mae pryder ynghylch a'r materion canlynol -

- Pryder y bydd caniatáu adloniant tu allan i'r eiddo yn creu niwsans sŵn ac yn amharu ar breswylwyr
- Fod gofyn am yr hawl i werthu alcohol o 8 y bore yn mynd i arwain at fwy o broblemau o drosedd ac anrhefn
- Fod cyflwr presennol yr adeilad yn beryglus
- Fod perygl i'r cyhoedd oherwydd bod cwsmeriaid yn y gorffennol wedi bod yn ymgynnull ar y ffordd fawr o flaen yr eiddo.
- Fod ymddygiad cwsmeriaid yn y gorffennol wedi bod yn rhoi delwedd negyddol iawn i gwsmeriaid busnesau cyfagos

Gweler y manylion llawn y sylwadau a dderbyniwyd ynghlwm a'r adroddiad.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.